# Dros £1miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghoetiroedd Cymru, a mwy ar gael

07/02/2023



Plant yn archwilio coetir aeddfed

Mae chwech prosiect i greu neu wella coetiroedd fel y gall cymunedau lleol eu defnyddio a'u mwynhau yn derbyn cyllid gan y cynllun Grant Buddsoddi mew Coetir (TWIG).

Rydym yn darparu rhaglen TWIG mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol i Gymru. Mae grantiau rhwng £40,000 a £250,000 ar gael i sefydliadau sy'n creu coetiroedd hygyrch a reolir yn dda y gall cymunedau lleol ymgysylltu â nhw yng Nghymru.

> “Rydyn ni i gyd yn elwa o goetiroedd - maen nhw'n ein helpu ni a bywyd gwyllt i fyw bywydau iachach, maen nhw'n gwella ein lles, ac yn ein helpu i liniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng hinsawdd."
>
> *Julie James, Gweinidog dros Newid Hinsawdd*

Mae'r cyntaf o'r prosiectau i'w hariannu drwy'r cynllun wedi'u cyhoeddi heddiw. Maent yn cynnwys creu coetir trefol hygyrch mewn cydweithrediad â disgyblion ysgol y Barri, ac adfer coed brodorol i goetir arfordirol ym Mhen Ll?n.



Mae coetir collddail dan fygythiad yng Nghymru oherwydd yr argyfwng hinsawdd a rhywogaethau ymledol

## Ymgeisiwch am nawdd o rowndiau ariannu sydd i ddod

Dywedodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, Julie James: “Mae wedi bod yn hyfryd gweld yr amrywiaeth o ymgeiswyr yn cael grantiau yn rownd gyntaf y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

“Gyda rhagor o rowndiau ariannu ar y gorwel, rydym am i fwy o bobl ddod ymlaen a gwneud cais am gyllid fel y gallant dyfu mannau awyr agored hardd ar gyfer eu cymuned leol. Rydyn ni i gyd yn elwa o goetiroedd - maen nhw'n ein helpu ni a bywyd gwyllt i fyw bywydau iachach, maen nhw'n gwella ein lles, ac yn ein helpu i liniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng hinsawdd."

I fod yn gymwys ar gyfer cyllid TWIG, rhaid i sefydliadau fod yn berchen ar dir neu reoli ei reolaeth ac eisiau cynnwys y gymuned wrth greu, cynnal neu wella coetir.

Mae tri rownd ariannu yn weddill drwy'r rhaglen TWIG. Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb yw:

- 16 Chwefror 2023 ar gyfer rownd tri
- 20 Ebrill 2023 ar gyfer rownd pedwar
- 7 Rhagfyr 2023 ar gyfer rownd pump

[Ymgeisio am arian ar gyfer prosiect coetir yng Nghymru]



Gall coetiroedd gael eu llethu gan rywogaethau ymledol sy'n tyfu'n gyflym, fel canclwm Japan

## Chwe phrosiect coetir yn derbyn cyllid

- Mae **Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn** yn derbyn £209,060 i ail sefydlu coetir brodorol ar lethrau arfordirol serth ym Mhen Ll?n.
- Mae'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn derbyn £249,302 i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd ac adfer ecosystemau yng nghoetir Ystagbwll yn Sir Benfro.
- Mae **Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen** yn derbyn £103,082 i wella coetiroedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu cymunedol a chael gwared ar rywogaethau anfrodorol ymledol.
- Mae prosiect **Meadow Street Woods Cyngor Tref Pontypridd** yn derbyn £197,011 i wella bioamrywiaeth ac agor mynediad i goetir trefol.
- Mae **Ysgol Gynradd Oak Field** yn derbyn £50,000 i drawsnewid erw o dir sydd wedi gordyfu yn y Barri yn goetir trefol.
- Ac yn olaf, mae **D?r Cymru** yn derbyn £250,000 i wella rheolaeth a mynediad ymwelwyr i goetiroedd o amgylch Cronfa Dd?r Llanddegfedd ger Pont-y-p?l.



## ddordeb hefyd mewn ...

Morwellt gyda golau'r haul. Credyd: Lewis Jefferies / WWF UK Hawlfraint Lewis Jefferies / WWF UK

## Prosiect adfer dolydd morwellt Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â'r argyfwng



Cytref o huganod. Credyd: Dave Boyle

## a safleoedd natur ledled Cymru



Children taking part in activities next to the River Eden

## £15.6million funding boost for natural heritage across the UK